



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

**Asesiad Perfformiad Amgylcheddol
Blynyddol 2025
*Hafren Dyfrdwy***

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan.



Cyhoeddwyd 29 Hydref 2026

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ

0300 065 3000 (Llun–Gwener, 8am–6pm)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru. Cedwir pob hawl.
Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon drwy dderbyn caniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhagair y Prif Weithredwr



Mae ansawdd ein hafonydd, ein llynnoedd a'n moroedd yn parhau i fod yn un o'r materion y mae pobl yn poeni fwyaf amdanynt. Mae disgwyliadau'r cyhoedd o gwmnïau dŵr, rheoleiddiadau a llywodraethau yn parhau i godi, ac yn haeddiannol felly. Mae pobl eisiau gweld dyfroedd glanach, rheoleiddio cryfach, a thystiolaeth glir bod gwelliant yn digwydd.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu asesiad o berfformiad amgylcheddol cwmnïau dŵr yn ystod cyfnod o graffu, buddsoddi a newid cynyddol ar draws y sector. Mae'n tynnu sylw at y meysydd lle gwneir cynnydd, a lle mae angen gwelliant pellach. Rwy'n falch o weld bod gan HD nifer o feysydd perfformiad da y gellir adeiladu arnynt, a'u bod yn rhannu'r hyn maent wedi'i ddysgu ag eraill yn y sector diwydiant dŵr. Mae sawl enghraifft o welliannau o flwyddyn i flwyddyn, sy'n dangos eu bod yn hyrwyddo diwylliant o wella perfformiad ar draws y sefydliad. Mae hwn yn gynnydd cadarnhaol.

Yn ogystal, mae buddsoddiad sylweddol bellach yn cael ei gyfeirio at wella perfformiad amgylcheddol, lleihau

llygredd a chryfhau seilwaith. Ar yr un pryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cryfhau ei ddull rheoleiddio ei hun. Bydd ein Tîm Cydymffurfiaeth Dŵr newydd yn cynyddu'r craffu ar berfformiad cwmnïau dŵr ac yn helpu i sicrhau bod rhwymedigaethau amgylcheddol yn cael eu cyflawni.

Fodd bynnag, mae'r heriau'n parhau i fod yn sylweddol. Mae newid hinsawdd, pwysau poblogaeth a seilwaith sy'n heneiddio yn parhau i effeithio ar wydnwch yr amgylchedd dŵr. Bydd mynd i'r afael â'r heriau hyn yn gofyn am fuddsoddiad parhaus, arloesedd a ffocws clir ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn dod ar adeg bwysig. Mae'r drafodaeth ynghylch dyfodol y sector dŵr yng Nghymru yn datblygu, wedi'i llywio gan y Comisiwn Dŵr Annibynnol a Phapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru. Wrth i ddisgwyliadau newid, rhaid i'r ffordd rydym yn rheoleiddio, yn asesu ac yn cyfathrebu perfformiad newid hefyd.

Mae hyn yn golygu bod yr adroddiad hwn yn gwneud mwy na dim ond edrych yn ôl. Mae'n darparu sail ar gyfer cam nesaf rheoleiddio a gwella. Byddwn yn parhau i gryfhau ein dull gweithredu, cynyddu tryloywder a chanolbwyntio ar y canlyniadau sydd bwysicaf: afonydd, llynnoedd a moroedd iachach, mwy o wydnwch, ac adfer hyder y cyhoedd.

Mae pobl Cymru, yn gwbl briodol, yn disgwyl safonau uchel gan bob un ohonom. Drwy gydweithio, mae gennym gyfle i sicrhau'r safonau hynny.

Ceri Davies
Prif Weithredwr CNC

Cyflwyniad

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r corff mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd, natur a llygredd. Rydym yn gweithio i amddiffyn a gwella adnoddau Cymru. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phriddoedd Cymru i wella llesiant a sicrhau dyfodol gwell i bawb.

Fel rhan o hyn, mae gennym rôl reoleiddio bwysig yn monitro perfformiad amgylcheddol cwmnïau dŵr. Mae hyn yn cynnwys olrhain digwyddiadau llygredd, gwirio cydymffurfiaeth â thrwyddedau, a goruchwyllo'r gwaith o gyflawni cynlluniau gwella. Fel y rheoleiddiwr amgylcheddol, rydym yn gyfrifol am ddal cwmnïau dŵr i gyfrif am gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol ac amgylcheddol – rydym yn eu herio i gymryd camau ataliol, fel na fydd llygredd yn digwydd.

Sefydlwyd Hafren Dyfrdwy ar 1 Gorffennaf 2018, gan ffurfio cwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n gyfan gwbl o fewn ffin wleidyddol Cymru.

Cafodd yr holl asedau a oedd gynt yn eiddo i Severn Trent Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yng Nghymru, ac a oedd yn cael eu rheoli ganddynt, eu trosglwyddo i Hafren Dyfrdwy. Yr unig eithriad yw gwaith trin dŵr Cwm Elan, a fydd yn parhau i fod yn eiddo i Severn Trent Water ac yn cael ei reoli ganddo er ei fod wedi'i leoli yng Nghymru. Bydd CNC yn rheoleiddio'r caniatâd hwn i ollwng dŵr ac yn darparu data perfformiad amgylcheddol i Asiantaeth yr Amgylchedd, fel y gellir ei gynnwys yn adroddiadau Severn Trent Water.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad amgylcheddol HD ar gyfer 2025. Rydym hefyd yn asesu perfformiad Dŵr Cymru, y gallwch ei weld ar ein [gwefan](#).

Nid yw metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a ddefnyddir ar gyfer y deg cwmni dŵr a charthffosiaeth mwyaf yng Nghymru a Lloegr yn berthnasol i HD gan ei fod o faint llai. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn ystyried themâu perfformiad amgylcheddol tebyg, gan gynnwys digwyddiadau llygredd a chydymffurfiaeth â thrwyddedau amgylcheddol.

Ceir mewnwelediadau manylach ar HD yn ein hadroddiadau [Digwyddiad Llygredd](#) a [Data Ollyngiadau Gorlifoedd Storm](#).

Cynnwys

Prif negeseuon am berfformiad	6
Digwyddiadau llygredd.....	6
Hunan-gofnodi digwyddiadau	7
Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr	8
Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng	9
Cydymffurfiaeth â gofynion llif mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff	10
Gorlifoedd storm a ganiateir	11
Adnoddau dŵr.....	13
Cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr	13
Cynlluniau sychder a Chynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr.....	13
Gollyngiadau a'r defnydd o ddŵr	14
Gwaith rheoleiddio ehangach.....	14
Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol	14
Gorfodi	14
Cydymffurfio â thrwyddedau gwastraff.....	15
Slwtsh.....	15
Diogelwch cronfeydd dŵr	15
Asesiad Monitro Gweithredwyr.....	15
Camau rheoleiddio	16
Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2026	20

Rhestr o Ffigurau

Ffigur 1 Gostyngodd cyfanswm y digwyddiadau i dri yn 2025, sy'n cynrychioli perfformiad gorau HD hyd yma.....	7
Ffigur 2 Cododd hunan-gofnodi i 67% gydag ond un digwyddiad heb ei hunan-gofnodi yn 2025.....	8

Prif negeseuon am berfformiad

Yn 2025, dangosodd HD berfformiad cryf ar draws sawl dangosydd amgylcheddol allweddol:

- **Digwyddiadau llygredd difrifol:** Yn arferol, ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau yn y categori difrifol.
- **Cydymffurfiaeth ag amodau rhifol trwydded gollwng dŵr:** Wedi'i chynnal ar 100% am y drydedd flwyddyn yn olynol.
- **Digwyddiadau cyflenwi dŵr:** Gostyngodd digwyddiadau cyflenwi dŵr o dri yn 2024 i un yn 2025, felly mae cyfanswm y digwyddiadau ar eu hisaf ers 2015.

Fodd bynnag, ceir agweddau lle mae perfformiad wedi dirywio, a lle bydd angen targedu gwelliannau.

- **Digwyddiadau llygredd carthffosiaeth:** Arhosodd yn ddau ar gyfer 2025, yr un fath â 2024.
- **Cydymffurfio ag amodau trwydded gollwng dŵr disgrifiadol:** Cyflwynwyd data yn hwyr gan arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth ar draws 39 o safleoedd a chanlyniad o 35%. Mae hyn yn sylweddol is na blyneddau eraill.
- **Hunan-gofnodi digwyddiadau:** 67% - dim ond un digwyddiad na chafodd ei hunan-gofnodi, cynnydd o 60% yn 2024.

Digwyddiadau llygredd


Fel y rheoleiddiwr amgylcheddol, rydym yn ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau llygredd, ac mae rhai ohonynt yn deillio o asedau a rhwydweithiau cwmnïau dŵr. Rydym yn adrodd ar nifer y digwyddiadau a briodolir i bob cwmni dŵr er mwyn hyrwyddo tryloywder ac ysgogi gwelliant parhaus. Ein nod yw sicrhau gostyngiad cynaliadwy mewn digwyddiadau llygredd, gyda'r uchelgais reoleiddiol y dylid dileu'r rhain yn llwyr. Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr atal pob digwyddiad difrifol (Categori 1 a 2).

Rydym yn defnyddio pedwar categori i asesu effaith digwyddiadau llygredd:

- **Categori 1 Sylweddol:** potensial i achosi effaith sylweddol, ddifrifol, barhaus a/neu eang ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo;
- **Categori 2 Arwyddocaol:** potensial i achosi effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo;
- **Categori 3 Bach:** potensial o gael ychydig iawn o effaith ar yr amgylchedd, pobl, a/neu eiddo;
- **Categori 4 Dim effaith:** diffyg cydymffurfiaeth ar safle sy'n cael ei reoleiddio lle na ellir rhagweld unrhyw effaith ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo.

Mae perfformiad digwyddiadau llygredd HD wedi gwella yn 2025 gyda chyfanswm o dri digwyddiad llygredd Categori 3, sy'n ostyngiad o ddau. Hefyd, cadwodd y cwmni nifer y digwyddiadau llygredd difrifol ar sero.

Mae'r graff isod yn dangos bod digwyddiadau carthffosiaeth wedi aros ar ddau yn 2025. Roedd un o waith trin carthffosiaeth, a'r llall o garthffos fudr. Gostyngodd digwyddiadau llygredd o asedau cyflenwi dŵr i un o'r system dosbarthu dŵr.




Ffigur 1 Gostyngodd cyfanswm y digwyddiadau i dri yn 2025, sy'n cynrychioli perfformiad gorau HD hyd yma.

Hunan-gofnodi digwyddiadau

Hoffem weld yr holl gwmnïau dŵr yn hunan-adrodd o leiaf 80% o'u digwyddiadau llygredd i ni. Bydd hyn yn golygu y gallwn fod yn fwy hyderus fod y cwmni dŵr yn:

- deall ei asedau a'i rwydweithiau;
- edrych yn barhaus am ffyrdd o wella sut mae'n rhagweld digwyddiadau llygredd, gan gynnwys defnyddio'i ddata telemetreg ei hun i wella lefelau hunan-gofnodi;
- defnyddio ei ddata i nodi mannau problemus a thargeddu lleoliadau risg uchel a mathau penodol o asedau;
- rhoi sylw ac yn ymateb i ddigwyddiadau'n gyflym er mwyn stopio unrhyw effaith cyn gynted â phosibl.

Cododd perfformiad hunan-gofnodi HD i 67% (dau o dri digwyddiad wedi'u hunangofnodi) ar ôl cyflawni 60% yn 2024. Gweler y graff isod.



Ffigur 2 Cododd hunan-gofnodi i 67% gydag ond un digwyddiad heb ei hunan-gofnodi yn 2025

Y digwyddiad unigol na chafodd ei hunan-gofnodi yn 2025 oedd y digwyddiad o'r system dosbarthu dŵr. Wedi i brif bibell ddŵr fyrstio llifodd dŵr llawn silt i ddraen tir mewn cae, gan lifo i gwrs dŵr cyfagos.

Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng dŵr

Rydym yn rhoi trwyddedau ar gyfer gollwng dŵr, gan gynnwys gollyngiadau sydd wedi'u trin o weithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr cwmnïau dŵr. Mae'r trwyddedau yn mynnu bod y gollyngiad yn bodloni meini prawf penodol er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr yn dirywio. Mae cwmnïau dŵr yn hunan-fonitro eu gollyngiadau ac yn darparu data ar ein cyfer yr ydym yn ei asesu i weld a ydynt yn cydymffurfio. Rydym wedi cynyddu ein gweithgareddau asesu cydymffurfiaeth, gan gynnwys arolygiadau ac archwiliadau safle, ac rydym yn disgwyl y cydymffurfir â holl amodau'r drwydded.

Rydym yn defnyddio'r Categoriâu diffyg cydymffurfio 1 i 4 canlynol 1 i 4 pan fyddwn yn asesu cydymffurfiaeth ag amodau trwydded:

- **C1 Sylweddol:** Potensial i achosi effaith sylweddol, ddifrifol, barhaus a/neu eang ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo.
- **C2 Arwyddocaol:** Potensial i achosi effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd, pobl a/neu eiddo.
- **C3 Bach:** Potensial o gael ychydig iawn o effaith ar yr amgylchedd, pobl, a/neu eiddo.

- **C4 – Dim effaith amgylcheddol:** Diffyg cydymffurfiaeth ar safle a reoleiddir lle na ellir rhagweld y bydd yn cael unrhyw effaith ar yr amgylchedd, pobl nac/neu eiddo

Pan fyddwn yn categoreiddio achosion o ddiffyg cydymffurfio, rhaid inni ystyried yr effaith bosibl yn seiliedig ar yr hyn y gellir ei ragweld yn rhesymol. Caiff pob achos o ddiffyg cydymffurfio ei gofnodi ar Adroddiad Asesu Cydymffurfiaeth a'i anfon at ddeiliad y drwydded. Lle bo angen, gallwn osod camau gweithredu sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded sicrhau bod y safle'n cydymffurfio o'r newydd â'r drwydded ac ystyried ein hopsiynau gorfodi.

Ar gyfer eu gweithrediadau dŵr gwastraff, mae HD yn gweithredu cyfanswm o 50 o weithfeydd trin dŵr gwastraff. O'r rhain, mae gan 39 derfynau ansawdd rhifol ar eu 43 o ollyngiadau cyfunol. Mae gan yr 11 sy'n weddill drwyddedau disgrifiadol.

Ar gyfer eu gweithrediadau cyflenwi dŵr, mae HD yn rheoli chwe gwaith trin dŵr. Mae gan bump o'r rhain derfynau ansawdd rhifol, ac mae gan un ohonynt drwydded ddisgrifiadol. Mae tri o'r trwyddedau rhifol ar gyfer safleoedd mwy sydd â chyfanswm llif dyddiol o fwy nag 20 metr ciwbig y dydd.

Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng

Cydymffurfio ag amod trwydded rhifol yn gysylltiedig ag ansawdd y dŵr

Gan ddefnyddio egwyddorion methodoleg yr EPA, byddwn yn asesu perfformiad cydymffurfio rhifol y cwmni drwy edrych ar ganran y gollyngiadau a fethodd eu terfynau ansawdd rhifol. Felly, rydym yn edrych ar y 43 o ollyngiadau rhifol o weithfeydd trin dŵr gwastraff a'r tri gollyngiad rhifol mwy o waith trin dŵr.

Yn 2025, nid oedd unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â thrwyddedau rhifol ar gyfer unrhyw un o'r 43 o ollyngiadau. Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol iddyn nhw gyflawni 100%.

	Canran yn cydymffurfio	Safleoedd heb gydymffurfio
2020	100%	0
2021	97.9%	1
2022	97.8%	1
2023	100%	0
2024	100%	0
2025	100%	0

Cydymffurfio ag amodau disgrifiadol trwyddedau ar ansawdd dŵr

Mae amodau disgrifiadol yn ymwneud ag agweddau nad ydynt yn rhifol fel cynnal a chadw, rheoli ac adrodd. Ar y cyfan, roedd cydymffurfiaeth ag amodau disgrifiadol mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr â thrwyddedau rhifol a disgrifiadol yn 2025 ar 35%, sy'n llawer is na pherfformiad arferol HD.

Mae'r canlyniad isel yn gysylltiedig â 69 o achosion unigol o gyflwyno data yn hwyr. Heb yr achosion hyn o gyflwyno data yn hwyr, ni fyddai gan HD ond tri achos o ddiffyg cydymffurfio ar draws dau safle, a byddai ganddo gyfradd gydymffurfio o 96.7%.

	Canran yn cydymffurfio	Safleoedd heb gydymffurfio
2020	96.7%	2
2021	91.8%	5
2022	98.2%	1
2023	95.0%	3
2024	95.0%	3
2025	35.0%	39

Cydymffurfiaeth â gofynion llif mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff

Cydymffurfiaeth â Llif Tywydd Sych

Llif Tywydd Sych yw cyfaint dyddiol cyfartalog y dŵr gwastraff sy'n mynd i mewn i waith trin yn ystod amodau sych, pan nad oes glaw. Mae'n adlewyrchu llifoedd arferol o aelwyddydd a busnesau. Mae Llif Tywydd Sych yn bwysig o ran cydymffurfiaeth gan fod llawer o drwyddedau gollwng yn seiliedig ar y lefel llif hon. Os yw'r llif yn rheolaidd yn uwch na'r Llif Tywydd Sych a ganiateir, gall ddangos problemau fel ymdreiddiad neu orlwytho, a all effeithio ar berfformiad gwaith trin ac arwain at niwed amgylcheddol.

Darparodd HD ddata Llif Tywydd Sych ar gyfer 2025 yn unol â gofynion ei drwydded. Yn 2024 ni chafodd unrhyw safleoedd broblemau data, ond yn 2025, adroddwyd bod pum gwaith trin dŵr gwastraff wedi mynd heibio'r terfynau a ganiateir iddynt ar gyfer Llif Tywydd Sych, er nad oedd unrhyw achosion o dorri rheolau ansawdd data. O ganlyniad i hyn, gollyngodd safleoedd fwy o garthion wedi'u trin nag a ganiateir. Mae'n ofynnol i'r cwmni gynnal ymchwiliadau ac adrodd inni am achos y gormodiant, a lle y bo'n briodol, cwblhau camau adferol o fewn amserlen y cytunir arni.

Cydymffurfiaeth Llif i Driniaeth Lawn (FFT)

Llif i Driniaeth Lawn (FFT) yw'r gyfradd llif uchaf y mae gwaith trin wedi'i gynllunio i'w drin yn llawn cyn i lifoedd gormodol gael eu dargyfeirio, fel arfer yn ystod glaw trwm. Mae'n sicrhau bod dŵr gwastraff yn cael ei drin yn briodol cyn cael ei ollwng i'r amgylchedd. Mae cydymffurfiaeth ag FFT yn bwysig gan fod hynny'n helpu i atal carthion heb eu trin neu sydd wedi'u trin yn rhannol rhag llifo i'r amgylchedd dŵr, gan ddiogelu ansawdd dŵr ac iechyd y cyhoedd.

Mae HD yn parhau i ymchwilio'n rhagweithiol i unrhyw safleoedd y maent yn tybio bod risg iddynt fethu bodloni'r terfynau FFT a ganiateir. Mae'r gorlifoedd sy'n rheoli FFT mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff wedi'u cysylltu â therfynau rhifol blynyddol ar eu trwyddedau ar

gyfer Llif a Basiwyd Ymlaen Ni chofnodwyd unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â'r Llif Trin Llawn ar gyfer data 2024 a 2025.

Cydymffurfio â'r cynllun ardystio monitro (MCERTS)

MCERTS yw ein cynllun ardystio monitro. Mae'n gosod safonau ar gyfer offer a systemau a ddefnyddir i fesur ac adrodd am ddata amgylcheddol, megis cyfraddau llif mewn gweithfeydd trin dŵr. Mae cydymffurfio â MCERTS yn sicrhau bod gwaith monitro llif yn gywir, yn ddibynadwy, ac yn gyson â gofynion rheoleiddio. Mae hyn yn ein helpu i asesu a yw safleoedd yn gweithredu o fewn y terfynau a ganiateir, ac yn gwarchod yr amgylchedd rhag niwed posibl.

Roedd pob un o 32 safle HD yn cydymffurfio â gofynion ail-ardystio MCERTS yn 2025.

Gorlifoedd storm a ganiateir

Asesiad cydymffurfio â thrwyddedau

Drwy ein gwaith ymateb i ddigwyddiadau ac asesu cydymffurfiaeth â thrwyddedau a gynhaliwyd yn 2025, gwelsom dau achos o ddiffyg cydymffurfio mewn gorlifoedd storm a ganiateir (gorsafoedd pwmpio carthffosiaeth, gorlifoedd carthffosiaeth gyfun, a gollyngiadau storm o weithfeydd trin dŵr gwastraff).

Roedd un achos yn deillio o fethiant i gyrraedd y gyfradd llif a ganiateir (Pass Forward Flow) cyn gollwng dŵr i systemau dŵr glaw. Roedd yr achos arall yn deillio o'r un ased yn gweithredu am lai na'r 90% o'r amser sy'n ofynnol ar gyfer Monitro Hyd Ddigwyddiadau (EDM). Rydym yn disgwyl i'r cwmni barhau i wella cyflawnrwydd a chywirdeb setiau data EDM, a sicrhau bod asedau'n gweithredu'n gyson am o leiaf 90% o'r amser.

Monitro Hyd Digwyddiadau

Mae HD wedi gosod dyfeisiau monitro hyd digwyddiad i fonitro nifer a hyd gollyngiadau, ar eu holl orlifoedd storm a ganiateir. Mae hyn yn golygu bod dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau wedi'u gosod ar yr asedau canlynol:

- gorlifoedd storm ar y rhwydwaith carthffosydd (gorlifoedd carthffosydd cyfun);
- gorlifoedd storm o orsafoedd pwmpio;
- gorlifoedd storm mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff.

Yn yr adran hon, rydym yn rhannu data ar orlifoedd storm a ganiateir yn unig. Ar gyfer gorlifoedd storm sy'n gweithredu heb drwydded ar hyn o bryd, mae gennym raglen waith ar y gweill i ddod â nhw o fewn ein fframwaith rheoleiddio, pan fo hynny'n briodol. Mae rhagor o wybodaeth am orlifoedd storm ar gael ar ein gwefan: [Gorlifoedd storm](#) ac [Adroddiadau data gollyngiadau gorlifoedd storm](#).

Mae gan gyfnodau anarferol o wlyb y potensial i arwain at fwy o ollyngiadau am gyfnodau hwy, tra bod tywydd sych yn cael effaith groes. Rydym yn gweithio ar ddull cadarn o nodi

pryd mae gollyngiadau yn digwydd mewn tywydd sych a fydd yn ein galluogi i asesu perfformiad gorlifoedd storm yn well.

Gan ddefnyddio dadansoddiad yn seiliedig ar gyfartaledd glawiad hirdymor yng Nghymru (1991–2020), roedd 2025 yn flwyddyn gyfartalog o ran glawiad, h.y. o fewn y 60% canol. Cyfrifwyd hyn drwy ddefnyddio cyfanswm y glawiad ledled Cymru o ddata y mae CNC yn ei dderbyn gan y Swyddfa Dywydd (HADUK).

Er gwaethaf haf sych, roedd cyfanswm y glawiad ar gyfer y flwyddyn yn dal i fod yn 97% o'r cyfartaledd hirdymor (1991 i 2020). Roedd mis Medi a mis Tachwedd yn llawer gwlypach na'r cyfartaledd, gyda 174% a 159% o'r cyfartaledd hirdymor wedi'u cofnodi yn y naill fis a'r llall.

Blwyddyn	Glawiad Cymru
2021	Blwyddyn gyfartalog
2022	Blwyddyn sych
2023	Blwyddyn wlyb
2024	Blwyddyn gyfartalog
2025	Blwyddyn gyfartalog

Data dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt

Mae'r data a gyflwynir yn yr adran hon yn defnyddio data cryno EDM 2025 a gyflwynwyd gan y cwmni dŵr yn ei ffurflen reoleiddio flynyddol.

Rhestrodd HD 40 o drwyddedau gyda 50 o ollyngiadau gorlif storm yn ei ddatganiad yn 2025.

Yn 2025, dim ond un (2%) o ddyfeisiau monitro hyd digwyddiad y cwmni dŵr oedd yn gweithredu am lai na 90% o'r flwyddyn. Mae hwn yn ganlyniad da, ond rydym yn disgwyl i HD weithio tuag at sicrhau bod 100% o ddyfeisiau monitro hyd digwyddiad yn gweithredu am o leiaf 90% o'r amser. Rydym yn disgwyl i'r cwmni barhau i weithio er mwyn gwella cyflawnrwydd a chywirdeb y setiau data gorlifoedd storm.

Nifer y gollyngiadau

Cyfrifir nifer y gollyngiadau o orlifoedd storm drwy ddefnyddio'r fethodoleg cyfrif blociau 12/24. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio'r un dull hwn felly ceir cysondeb ar draws cwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr wrth gyfrif gollyngiadau o orlifoedd storm.

Mae'r data gollyngiadau o'r 50 o orlifoedd storm a ganiateir yn HD yn dweud y canlynol wrthym:

- 14% (7) heb ollwng o gwbl
- 20% (10) wedi gollwng rhwng 1 a 9 o weithiau
- 46% (23) wedi gollwng rhwng 10 a 39 o weithiau
- 20% (10) wedi gollwng rhwng 40 a 99 o weithiau
- 0% (0) wedi gollwng rhwng 100 a 300 o weithiau

- 0 wedi gollwng dros 300 o weithiau

Hyd y gollyngiadau

Mae'r data ar hyd gollyngiadau o'r 50 o orlifoedd storm a ganiateir yn HD yn dweud y canlynol wrthym:

- Cafodd 14% (7) ollyngiadau a barodd 0 awr
- Cafodd 82% (41) ollyngiadau a barodd fwy na 0 ond llai na 50 awr
- Cafodd 4% (2) ollyngiadau a barodd 50 awr o leiaf ond llai na 250 awr
- Cafodd 0% (0) ollyngiadau a barodd 250 awr o leiaf ond llai na 500 awr
- Cafodd 0% (0) ollyngiadau a barodd 500 awr o leiaf ond llai na 1,000 awr
- Cafodd 0% (0) ollyngiadau a barodd 1,000 awr o leiaf ond llai na 5,000 awr
- 0 o ollyngiadau a barodd dros 5,000 awr

Adnoddau dŵr.

Cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr

Yn 2025 cafwyd dau asesiad o gydymffurfiaeth ar drwyddedau adnoddau dŵr HD, y naill a'r llall ar yr un safle. Roedd yr ail ymweliad cydymffurfiaeth yn gysylltiedig â phroblem barhaus ar y safle. Cyhoeddwyd 'Ystyried Camau Gorfodi' fel yr ymateb gorfodi ar gyfer y car.

Cynlluniau sychder a Chynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr

Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd i gynnal cyflenwadau dŵr yn eu hardal, heb niweidio'r amgylchedd nac effeithio ar anghenion defnyddwyr dŵr eraill. Mae gofyniad statudol ar gwmnïau dŵr i baratoi, cynnal a chyhoeddi Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a Chynlluniau Sychder. Cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr diweddaraf yn 2024. Cyhoeddwyd ei Gynllun Sychder 2025 yn 2025. Mae'r cynlluniau yn cael eu cyhoeddi bob pum mlynedd. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â Chynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a Chynllun Sychder HD, gweler ei wefan:

- [Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2024](#)
- [Cynllun Sychder 2025-2030](#)

Edrychwch hefyd ar ein tudalennau gwe am ragor o wybodaeth ar y pynciau hyn:

- [Cynllunio Adnoddau Dŵr](#)
- [Sychder](#)
- [Cynllun sychder cwmni dŵr - canllawiau technegol](#)

Gollyngiadau a'r defnydd o ddŵr

Mae cwmnïau dŵr yn cyflwyno amrywiaeth eang o ddata i ni ac Ofwat, sy'n cynnwys cyfraddau gollyngiadau a defnydd dŵr. Dylai'r cyfraddau gollyngiadau diwygiedig a'r wybodaeth am ddefnydd dŵr ar gyfer 2025/26 fod ar gael yn www.discoverwater.co.uk cyn bo hir.

Gwaith rheoleiddio ehangach

Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol

2025 oedd y flwyddyn gyntaf yng Nghynllun Rheoli Asedau (AMP) 8 a gynhelir o 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflawnodd HD 4 cynllun monitro, i osod dyfeisiau monitro Llif i Driniaeth Lawn (h.y. MON4). Mae holl rwymedigaethau blwyddyn 1 wedi'u cyflawni.

Gorfodi

Mae ein polisi gorfodi a sancsiynau yn sicrhau bod troseddau amgylcheddol yn cael eu trin yn deg, yn gadarn, ac yn gymesur er mwyn atal niwed pellach. Mae camau gorfodi wedi'u seilio ar ein *Hopsiynau Ymateb i Droseddau*, sy'n cynnwys:

- Cyngor ac arweiniad
- Rhybuddion ffurfiol
- Sancsiynau sifil
- Erlyniad

Mae ymateb a ddewisir yn dibynnu ar: ddifrifoldeb y drosedd, parodrwydd y troseddwr i gydymffurfio a budd y cyhoedd.

Nod ein hymyriadau gorfodi yw:

- Rhoi terfyn ar droseddau parhaus
- Adfer difrod amgylcheddol
- Atal achosion o dorri rheolau yn y dyfodol
- Hyrwyddo cydymffurfiaeth barhaus

Gellir datrys troseddau bach neu anfwriadol drwy addysg neu gamau gwirfoddol. Ystyrir erlyn fel dewis olaf, ac ni fyddwn ond yn mynd ar drywydd hynny ar ôl gweld bod dulliau gorfodi eraill wedi bod yn aneffeithiol, neu lle bo'r drosedd yn arbennig o ddifrifol. Noder y gall ymchwiliadau cymhleth gymryd amser, ac yn aml caiff canlyniadau eu hadrodd yn y blynyddoedd dilynol.

Yn 2025, roedd yr holl gamau gorfodi a gymerwyd yn erbyn HD wedi'u cyfyngu i Rybuddion neu gamau lefel is, oherwydd natur y troseddau. Cyhoeddwyd dau ganiatâd tynnu dŵr (CARs), gyda'r ymateb gorfodi 'Ystyriwyd camau gorfodi'.

Cydymffurfio â thrwyddedau gwastraff

Gall cwmnïau dŵr gyflawni amrywiaeth o weithgareddau gwastraff, yn amrywio rhwng trin biowastraff, tirlenwi, hylosgi bio-nwy, llosgi slwtsh, a gorsafoedd trosglwyddo.

Nid oes gan HD unrhyw drwyddedau gwastraff.

Slwtsh

Mae HD yn gynhyrchydd slwtsh gweddilliol o'i weithfeydd trin dŵr gwastraff. Y cyfanswm a gynhyrchwyd ganddo ar gyfer 2025 oedd 1,029.27 tonnelli o solidau sych.

Fodd bynnag, nid yw'n dosbarthu slwtsh fel y'i diffinnir o dan y metrig slwtsh boddhaol. Derbynnir hyn oherwydd bod slwtsh yn cael ei fasnachu rhwng y cwmnïau dŵr. Mae cwmni HD yn masnachu ei slwtsh i gwmni dŵr arall, ac o dan fetrig slwtsh y cwmni dŵr hwnnw y caiff y defnydd boddhaol ei adrodd amdano.

Diogelwch cronfeydd dŵr

Mae HD yn rheoli 14 o gyforgronfeydd dŵr mawr, ac rydym wedi dynodi 12 ohonynt yn rhai risg uchel. Cyforgronfeydd dŵr mawr yw cronfeydd dŵr risg uchel, a ddynodwyd gennym ni, lle credwn y gallai bywyd dynol fod mewn perygl pe bai argae yn methu, gan achosi i ddŵr gael ei ryddhau heb ei reoli.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym yn monitro cydymffurfiaeth chwarterol yn erbyn dangosyddion diogelwch allweddol, gan gynnwys:

- cronfeydd dŵr heb beiriannydd adeiladu neu oruchwylio penodedig
- cronfeydd dŵr heb eu harchwilio o fewn yr amserlen ofynnol
- cronfeydd dŵr lle nad yw mesurau diogelwch a argymhellwyd wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen a argymhellwyd gan y peiriannydd arolygu.

Mae lefel cydymffurfiaeth y cwmni yn uchel. Cofnodwyd 100% o gydymffurfiaeth gennym â'r mesurau hyn. Mae gan HD ymrwymiad corfforaethol i'w Fwrdd i gynnal y lefel hon o gydymffurfiaeth.

Mae HD yn rhannu ei Adolygiad Blynyddol Argaeau a Chronfeydd Dŵr â ni fel mater o dryloywder a diwydrwydd, ac rydym yn croesawu hynny.

Asesiad Monitro Gweithredwyr

Rydym yn cynnal yr archwiliadau hyn o drefniadau hunan-fonitro gweithredwyr i wirio bod cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn cyflawni'r monitro gofynnol yn unol â'r safonau monitro yn ein trwyddedau a thrwy MCERTS. Yr asesiad monitro gweithredwyr yw'r offeryn

systematig a ddefnyddiwn i gynnal yr archwiliadau hyn er mwyn tynnu sylw at feysydd i'w gwella, a hyrwyddo arfer gorau.

Cynhaliwyd archwiliad asesiad monitro gweithredwyr ar 9 Chwefror 2024. Canolbwyntiai'r archwiliad hwn ar ddata cydymffurfiaeth rifol a disgrifiadol ar gyfer cyfnodau adrodd 2022–2023. Cyflawnodd y cwmni sgoriau yn amrywio rhwng 'da' a 'rhagorol' ar draws yr holl elfennau a aseswyd. Nodwyd mân addasiadau gweithdrefnol, ac mae camau gweithredu cyfatebol wedi'u gosod. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu yn ystod archwiliad asesiad monitro gweithredwyr yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn effeithiol.

Nid oes amserlen sefydlog ar gyfer cynnal archwiliadau asesiad monitro gweithredwyr. Rydym yn eu cynnal yn seiliedig ar ein hasesiad o risg a blaenoriaethau gweithredol. Er na wnaethom gynnal archwiliad asesiad monitro gweithredwyr ar gyfer HD yn 2025, rydym wedi trefnu archwiliad o'r fath ar gyfer diwedd 2026.

Camau rheoleiddio

Rydym wedi ymrwmo i sbarduno gwelliannau ym mherfformiad cwmnïau dŵr drwy fframwaith rheoleiddio cadarn ac esblygol. Mae ein camau gweithredu yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

1. Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd (PIRPs)

Mae'r Ddeddf Dŵr (Mesurau Arbennig) wedi mewnosod darpariaethau yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol yn ôl y gyfraith i bob cwmni dŵr gyhoeddi Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd ac adroddiadau gweithredu. Rhaid i gynlluniau lleihau digwyddiadau llygredd esbonio'n glir sut y bydd cwmnïau'n lleihau llygredd o'u holl asedau. Bydd Adroddiadau Gweithredu yn adolygiad ôl-weithredol o ba mor llwyddiannus y gweithredwyd y mesurau lleihau digwyddiadau. Nid yw'r gofynion deddfwriaethol newydd yn cynnwys unrhyw sancsiynau os na fydd cwmnïau dŵr yn llwyddo i weithredu eu mesurau.

Gwnaethon ddatblygu canllawiau allanol sy'n disgrifio'r cynnwys yr ydym yn disgwyl ei weld mewn Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd. Roedd yn rhaid cyhoeddi'r Cynlluniau cyntaf erbyn mis Ebrill 2026, ac adolygwyd y rheiny gan CNC. Anfonwyd llythyr rhybudd at HD gan nad oedd eu Cynllun yn gwbl foddhaol. Byddant yn cyflwyno PIRP newydd yn 2027.

2. Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMPs)

Mae'n ddyletswydd statudol ar ymgymrwyr carthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr i baratoi, cyhoeddi a chynnal Cynllun Rheoli Draenio a Charthffosiaeth o dan adran 94 o'r Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991. Gelwir y cynlluniau hyn yn Gynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMPs). Mae'r canllawiau anstatudol hyn yn rhoi cyfarwyddiadau i ymgymrwyr carthffosiaeth ynghylch sut i baratoi, cyhoeddi a chynnal DWMP sy'n cydymffurfio a'r gofynion.

Rydym yn gweithio tuag at wneud DWMPs yn statudol yng Nghymru, gan eu hymgorffori mewn strategaethau cynllunio a buddsoddi hirdymor.

- Rhaid i DWMPs fod yn uchelgeisiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gyson â nodau hinsawdd ac amgylcheddol.
- Byddant yn cefnogi cynllunio strategol dros gyfnod o 25 mlynedd, gan fynd i'r afael â heriau fel twf y boblogaeth, newid hinsawdd, a gwytnwch seilwaith.
- Bydd cwmnïau dŵr yn cyhoeddi DWMP drafft erbyn mis Tachwedd 2027, gan ganiatáu 12 wythnos o ymgynghori â'r cyhoedd, a chyhoeddi Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff terfynol ym mis Awst 2028 - DWMP29.

3. Cyflawni buddsoddiad Cynllun Rheoli Asedau 8 (AMP8) a blaenoriaethau Adolygiad Prisiau 24

Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr gyflawni eu hymrwymadau buddsoddi yng Nghynllun Rheoli Asedau 8 (2025–2030), yn unol â thargedau perfformiad a osodwyd drwy Adolygiad Prisiau 24, dan arweiniad Ofwat.

- Mae blaenoriaethau rheoleiddio yn cynnwys lleihau llygredd, gwella ansawdd dŵr, gwella gwytnwch hinsawdd, a darparu gwasanaethau gwell;
- Byddwn yn dwyn cwmnïau i gyfrif o ran cyflawni amserol a thryloyw ac yn sicrhau bod buddsoddiadau'n arwain at welliannau amgylcheddol pendant.

4. Cynllun Cydymffurfio â Thrwyddedau a Gwasanaeth Rheoleiddio

Mae ein Cynllun Gwasanaeth Rheoleiddio blynyddol yn gosod targedau rheoleiddio ar draws cyfundrefnau. Drwy'r gwaith hwn, mae goruchwyliaeth rheoleiddiol dros asedau trwyddedig cwmnïau dŵr, a gwaith cysylltiedig ar gydymffurfiaeth, wedi cynyddu. Nod y Cynllun Gwasanaeth Rheoleiddio ac adroddiadau perfformiad chwarterol cysylltiedig yw mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi a datblygu gwasanaeth rheoleiddio cydnerth ac effeithiol a gyllidir yn gynaliadwy.

Mae cryfhau cydymffurfiaeth â thrwyddedau yn hanfodol i atal digwyddiadau llygredd, a byddwn yn parhau i gynnal asesiadau mwy mynych a thrylwyr i sicrhau bod cwmnïau'n bodloni amodau trwydded.

5. Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2026–2030)

Caiff methodoleg yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (EPA) ei hadolygu bob 5 mlynedd, ac yn 2026, rydym yn gweithredu fframwaith EPA diwygiedig ar gyfer 2026-2030.

Mae disgwyliadau, gan gynnwys llawer sy'n berthnasol i'r EPA, wedi'u nodi yng [Ngofynion Amgylcheddol Strategol Diwydiant Dŵr Cymru](#) (WWISER) ar gyfer 2026 i 2030. Bydd hyn yn cynnwys metrigau ychwanegol i wella craffu ac atebolrwydd, a bydd perfformiad yn cael ei feincnodi i ysgogi gwelliant parhaus.

6. Rheoleiddio cydweithredol a gwella'r sector

Rydym yn cydweithio'n agos ag Ofwat a phartneriaid eraill i sbarduno gwelliannau ledled y sector, sy'n cynnwys lleihau digwyddiadau llygredd a hyrwyddo arfer gorau ar draws y diwydiant. Byddwn yn parhau i ddwyn cwmnïau dŵr i gyfrif ar bob lefel, o weithrediadau rheng flaen i arweinyddiaeth uwch.

Bu cyhoeddiadau sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf yn ymwneud â rheoleiddio'r sector dŵr. Cyhoeddwyd y Comisiwn Dŵr Annibynnol ym mis Mehefin 2025, ac mewn ymateb i hynny cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyrdd ym mis Chwefror 2026 - *Llunio Dyfodol Llywodraethu Dŵr yng Nghymru*. Mae argymhellion yn y dogfennau hyn yn amlinellu cynllun unwaith mewn cenhedlaeth i drawsnewid y system ddŵr.

Yn ogystal â hyn, mae'r Ddeddf Dŵr (Mesurau Arbennig) yn cyflwyno pwerau gorfodi newydd ar gyfer y diwydiant dŵr drwy Gosbau Ariannol Amrywiol (VMPs) a Chosbau Ariannol Awtomatig. Gweler rhagor o wybodaeth isod:

- Bydd Chosbau Ariannol Awtomatig yn berthnasol i achosion penodol o dorri rheolau ac, yn wahanol i opsiynau gorfodi presennol, bydd yn ofynnol i CNC orfodi cosb os yw'r meini prawf cyfreithiol wedi'u bodloni;
- Bydd VMPs yn cynnig opsiwn gorfodi sifil ychwanegol ochr yn ochr â dulliau gorfodi presennol CNC, gan gynnwys erlyniad troseddol lle bo'n briodol;
- Gallai cosbau ariannol fod yn sylweddol, gyda VMPs o hyd at £500,000 fesul achos o dorri rheol, ac ar gyfer Chosbau Ariannol Awtomatig disgwylir cosb o oddeutu £10,000 fesul achos o dorri rheol;
- Mae CNC yn datblygu ei ddull gweithredu ac yn cefnogi ymgynghoriad sydd ar ddod gan Lywodraeth Cymru sydd ar ddod, y disgwylir iddo barhau am 12 wythnos o fis Rhagfyr 2026.

7. Strategaeth data a galluedd dadansoddol

Rydym yn gwella ein systemau data drwy ein platfform i gwsmeriaid a'n strategaeth technoleg gwybodaeth ar gyfer 2030 drwy archwilio offer i wneud y mwyaf o alluedd dadansoddi data, gan gydweithio â rheoleiddwyr eraill i fabwysiadu arferion gorau. Bydd data gwell yn cynorthwyo'r gwaith o reoleiddio a monitro cydymffurfiaeth yn fwy effeithiol.

Ym mis Gorffennaf 2025, fe wnaethom sefydlu Tîm Cydymffurfiaeth Dŵr newydd fel swyddogaeth genedlaethol i gynnig dull cyson o asesu cydymffurfiaeth, rheoli data a gwneud penderfyniadau rheoleiddiol ledled Cymru yn gysylltiedig â gollyngiadau dŵr.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd y tîm asesiadau cydymffurfiaeth cenedlaethol ar draws rhaglenni monitro allweddol, gan gynnwys hunan-fonitro gan weithredwyr, data llif a gorlifoedd storm, ac adroddiadau ar Reoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol. Mae hyn wedi cryfhau cysondeb a chadernid data cydymffurfio a ddefnyddir ar gyfer adroddiadau rheoleiddiol.

Mae'r tîm yn blaenoriaethu gwella ansawdd data a datblygu prosesau ac offer cenedlaethol i gefnogi asesiad cydymffurfiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r tîm hefyd wedi cefnogi gwaith i nodi a datrys problemau cydymffurfio cymhleth neu aml-ardal, gan gyfrannu at gamau gorfodi cymesur lle bo angen.

Gan weithio'n agos gyda'n timau gweithredol, mae'r Tîm Cydymffurfiaeth Dŵr yn rhoi cyngor technegol, hyfforddiant a chymorth, gan helpu i wella cysondeb mewn canlyniadau cydymffurfiaeth tra'n cefnogi darpariaeth reoleiddio leol effeithiol.

Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2026

Bydd blwyddyn adrodd 2026 yn nodi'r flwyddyn gyntaf o [fethodoleg wedi'i diweddarau](#) ar gyfer cylch adrodd yr EPA sy'n cwmpasu 2026 i 2030. Rydym hefyd yng nghyfnodau cynnar chyfnod Cynllun Rheoli Asedau (AMP8) newydd ac Adolygiad Pris (PR24) newydd. Rydym yn disgwyl i DCWW gwneud cynnydd cadarnhaol, gan wrthdroi'r tueddiadau dirywiol a welwyd yn 2025.

Mae blwyddyn ddata 2026 yn cynrychioli newid sylweddol o ran adrodd cwmnïau dŵr. Yng Nghymru, cyhoeddodd CNC **Nodyn Canllaw 018**, *Digwyddiadau llygredd cwmnïau dŵr (GN018)*, tra yn Lloegr cyhoeddodd yr EA y **WIRI - Canllawiau ar gyfer adrodd ac asesu digwyddiadau rheoleiddio'r diwydiant dŵr**. Mae'r dogfennau hyn yn disodli **LIT 11244**, *Cofnodi a chategoreiddio digwyddiadau llygredd hunan-gofnodwyd gan y diwydiant dŵr (Cyfarwyddyd Gweithredol 16_02 gynt)*, a dynnwyd yn ôl ar 1 Ionawr 2026. Noder bod LIT yn acronym a ddefnyddir gan yr Asiantaeth Amgylcheddol ar gyfer llenyddiaeth ganllawiau. O ganlyniad i'r canllawiau diwygiedig, rydym yn rhagweld cynnydd yn nifer y digwyddiadau llygredd a hunan-gofnodwyd gan gwmnïau dŵr ledled Cymru a Lloegr.

Yn 2026, rydym yn disgwyl y bydd HD yn gwneud y canlynol:

- Parhau i berfformio'n gryf o safbwynt digwyddiadau llygredd, gan barhau i sicrhau na cheir unrhyw ddigwyddiadau llygredd difrifol, a pharhau i leihau cyfanswm y digwyddiadau.
- Parhau i gydymffurfio 100% â therfynau rhifol gollwng dŵr;
- Cyflawni cynlluniau gwella'r Cynllun Rheoli Asedau yn unol â therfynau amser cytunedig.

Er mwyn gwella perfformiad amgylcheddol ymhellach, dylai HD flaenoriaethu'r canlynol:

- Ymdrechu i gydymffurfio 100% â safonau amodau disgrifiadol, gyda ffocws penodol ar gyflawni o leiaf 90% o amser gweithredol monitro hyd digwyddiadau ar gyfer gorlifoedd storm
- Gostwng cyfanswm y digwyddiadau llygredd eto
- Cyflawni hunan-adrodd 100% o ddigwyddiadau llygredd, yn enwedig lle mae telemetreg ar gael (e.e. gorlifoedd carthffosiaeth gyfun)